


# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Cynllun Pensiwn Aelodau

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015 – 16

Mehefin 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**


Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.


**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Pensiwn Aelodau

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015 – 16

Mehefin 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

# Cynnwys

Ymddiriedolwyr a chynghorwyr ........ 1

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 ........ 3

Datblygiad ariannol y Cynllun ........ 5

Adolygiad actiwaraidd ........ 6

Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 10

Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2016 ........ 12

Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol ........ 16

Datganiad llywodraethu ........ 17

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 22

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 ........ 23

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon ........ 25

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol ........ 35

Datganiad yr Actiwari – yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2016 ........ 36

# Ymddiriedolwyr a chynghorwyr

Yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn oedd:

| | |
|---|---|
| William Graham AC | **Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr** |
| David Melding AC | |
| Jocelyn Davies AC | |
| Mike Hedges AC | |
| Peter Black AC | |
| Gareth Jones | **Ymddiriedolwr-Bensiynwr** |

Yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau, sefydlwyd Bwrdd Pensiynau newydd ar 6 Mai 2016. Mae'r Bwrdd yn cynnwys dau gynrychiolydd a enwebwyd gan Aelodau presennol a blaenorol y Cynulliad, dau gynrychiolydd a benodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ac un Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol sy'n Gadeirydd y Bwrdd.

Ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr oedd:

| | |
|---|---|
| **Jill Youds** | Ymddiriedolwr Annibynnol (Cadeirydd) |
| **Mike Hedges AC** | Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan Aelodau |
| **Gareth Jones** | Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan Aelodau |
| **Suzy Davies AC** | Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan y Comisiwn |

Yn dilyn eu cyfarfod ar 16 Mehefin, enwebodd y Comisiynwyr Gyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn fel eu hail Ymddiriedolwr. Mae swydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn swydd wag ar hyn o bryd. O dan drefniant dros dro, bydd y rôl yn cael ei chyflawni gan Bennaeth Gwasanaethau Ariannol Comisiwn y Cynulliad, hyd nes y bydd penodiad parhaol yn cael ei wneud.

## Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, sy'n rhan o Wasanaethau Ariannol Comisiwn y Cynulliad, sy'n gweinyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am unrhyw wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

**Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Gwasanaethau Ariannol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol Gweinyddwyr y Cynllun oedd:

| | |
|---|---|
| Donna Davies,<br>Ysgrifennydd y Cynllun | Rhif ffôn: 0300 200 6523 ac e-bost:<br>**donna.davies@cynulliad.cymru** |
| Liz Calder<br>Ysgrifennydd Cynorthwyol | Rhif ffôn: 0300 200 6528 ac e-bost:<br>**liz.calder@cynulliad.cymru** |
| (Nicola Callow oedd Ysgrifennydd y Cynllun ond ymddiswyddodd ar 21 Ebrill 2016) | |

Cynghorwyr y Cynllun a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â'r Gronfa fel ar 31 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Actiwari** | Trevor Llanwarne o Adran Actiwari'r Llywodraeth |
| **Archwilydd** | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| **Bancwyr** | Banc Barclays ccc |
| **Rheolwr Buddsoddi** | Baillie Gifford Life Cyfyngedig |
| **Cynghorwr cyfreithiol** | Eversheds |
| **Cyfrifwyr y Cynllun** | Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Cynulliad |

Ni fu dim newidiadau yn y penodiadau ers y cyfnod blaenorol

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

## Cefndir deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynllun")

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") yn darparu cynllun budd-daliadau diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i'r Ddeddf yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu budd-daliadau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Dyma brif fuddiannau'r cynllun:

– Pensiwn o ddeugeinfed / hanner canfed o gyflog terfynol yr aelod am bob blwyddyn o wasanaeth erbyn iddo neu iddi ymddeol yn 65 mlwydd oed;

– Yn achos aelodau a ymunodd cyn 6 Ebrill 2006, ni chaiff y pensiwn ei dalu cyn iddynt droi'n 50 oed (mae'n bosibl y bydd y pensiwn yn llai os caiff ei dalu'n gynnar, cyn iddynt droi'n 65 oed, gan ddibynnu ar oed/hyd gwasanaeth);

– Yn achos aelodau sy'n ymuno ar ôl 6 Ebrill 2006, ni chaiff y pensiwn ei dalu cyn iddynt droi'n 55 oed (mae'n bosibl y bydd y pensiwn yn llai os caiff ei dalu'n gynnar, cyn iddynt droi'n 65 oed;

– Pensiwn ar unrhyw adeg ar sail afiechyd parhaol;

– Pensiwn gŵr gweddw/gwraig weddw/partner cyfwerth â 5/8fed o bensiwn yr aelod (yn seiliedig ar wasanaeth tebygol yr aelod os oedd yn aelod gweithredol o'r Cynllun pan fu farw);

– Pensiynau plant ar gyfradd o un chwarter pensiwn yr aelod os oes un plentyn, neu 3/8 os oes dau o blant neu ragor (yn seiliedig wasanaeth tebygol yr aelod os oedd yn aelod gweithredol o'r Cynllun pan fu farw);

– Caiff pensiynau sy'n cael eu talu eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu);

– Cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog pedair blynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai;

Mae'r budd-daliadau dewisol yn cynnwys:

– Prynu blynyddoedd ychwanegol;

– Trosglwyddo hawliau pensiwn (i mewn ac allan o'r cynllun);

## Newidiadau i Reolau

Ni fu dim newidiadau i'r rheolau yn ystod y flwyddyn.

## Trosglwyddo

Cafodd gwerth yr holl symiau a drosglwyddwyd i gynlluniau pensiwn eraill eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â'r gofynion statudol. Wrth drosglwyddo symiau i'r cynllun, caiff credydau gwasanaeth eu cyfrifo'n unol â rheolau'r Cynllun a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd") yn gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad. Mae adolygiad y Bwrdd o bensiynau Aelodau wedi dod i ben, ac ym mis Mai 2016 cyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae'r Ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr proffesiynol wedi ymgysylltu â'r Bwrdd a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi drwy gydol y flwyddyn i gwblhau rheolau newydd y Cynllun. Cyflwynir Cynllun Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa newydd o 6 Mai 2016. Bydd aelodau sy'n 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn destun 'Gwarchodaeth Drosiannol' a bydd eu budd-daliadau'n parhau i gael eu cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 5 Mai 2021.

Bydd y cyfraniad a wneir gan y Cynulliad yn cyfateb i 15.6 y cant o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Bydd yr Aelodau nad ydynt yn destun 'Gwarchodaeth Drosiannol' yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5 y cant. Bydd yr aelodau hynny sy'n destun 'Gwarchodaeth Drosiannol' yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6 y cant neu 10 y cant, yn dibynnu ar p'un a ydynt yn cronni budd-daliadau ar sail 50$^{fed}$ neu 40$^{fed}$ yn y drefn honno.

## Rheoli'r Cynllun

Mae'r Ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn wedi'u rhestru ar dudalen 2.

## Sut y Penodir Ymddiriedolwyr y Cynllun

Mae Rheolau'r Cynllun yn nodi na fydd 'dim mwy' na chwech Ymddiriedolwr.

Ar unrhyw un adeg, bydd un o'r chwe Ymddiriedolwr yn bensiynwr, os oes unrhyw un yn fodlon sefyll. Os ceir mwy nag un enwebiad, cynhelir balot i ddewis yr unigolyn â'r nifer uchaf o bleidleisiau ymhlith y pensiynwyr sy'n aelodau o'r Cynllun.

Ni phenodir neb arall i fod yn Ymddiriedolwr oni bai ei fod ef neu hi yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond ni fydd Ymddiriedolwr yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr dim ond os yw'n rhoi'r gorau i fod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi neu ddiswyddo unrhyw Ymddiriedolwr. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo o'r swydd drwy ysgrifennu at Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau'r Cynulliad, ac weithiau cynhelir cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr dair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu'n ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm, a'r cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd tri.

## Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi gweithdrefn Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol ar waith yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Mae manylion y weithdrefn ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun.

# Datblygiad ariannol y Cynllun

## Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac â'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a adolygwyd ym mis Tachwedd 2015. Dyma'r flwyddyn gyntaf i FRS 102 a'r SORP diwygiedig fod yn gymwys i ddatganiadau ariannol y Cynllun.

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi gan swyddogion y Cynulliad, ar ran yr Ymddiriedolwyr, a'u harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Maent yn cael eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41 (1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol ag OS 1996/1975 y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd).

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

| | 2016<br>£ | 2015<br>£ |
|---|---|---|
| **Incwm sy'n gysylltiedig ag aelodau** | 1,400,449 | 1,409,569 |
| **Taliadau sy'n gysylltiedig ag aelodau** | (821,093) | (487,611) |
| **Ychwanegiadau net o drafodiadau ag aelodau** | 579, 356 | 921,958 |
| **Enillion net ar fuddsoddiadau** | 61,397 | 2,618,597 |
| **Cynnydd / (gostyngiad) yn y gronfa** | 640,753 | 3,540,555 |
| **Asedau net ar ddechrau'r flwyddyn** | 29,028,245 | 25,487,690 |
| **Asedau net ar ddiwedd y flwyddyn** | 29,668,998 | 29,028,245 |

## Crynodeb o'r Wybodaeth Ariannol

Yr incwm yn ystod y cyfnod oedd £1,400,449 (£1,409,569 yn 2014-2015), a gwariant y Cynllun oedd £821,093 (£487,611 yn 2014-2015). Gwerth asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2016 oedd £29,668,998 (£29,028,245 ar 31 Mawrth 2015).

Yn ystod y cyfnod, rhoddwyd cyfanswm o £561,880 o fuddsoddiad newydd i Reolwyr y Gronfa i'w fuddsoddi yn y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a Chronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford. Cyfanswm gwerth y Gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2016 oedd £28,010,662 (£28,580,104 ar 31 Mawrth 2015).

Ar 31 Mawrth 2016, roedd cyfanswm o £323,276 (£352,572 ar 31 Mawrth 2015) mewn cyfrif cadw y Trysorlys ac roedd banc y Cynllun yn ennill llog yn seiliedig ar gyfraddau'r farchnad ariannol ar y pryd Caiff yr arian hwn ei gadw at ddibenion hunan yswirio.

# Adolygiad actiwaraidd

## Datganiad yr Actiwari – yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2016

Caiff Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig o fewn saith mis i ddiwedd y flwyddyn gyfrifo. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

## Asesiad Actiwaraidd

Nid yw'r Datganiadau Ariannol a nodir ar dudalennau **22 i 23** yn ystyried y rhwymedigaethau i ddarparu budd-daliadau pensiwn sy'n dod yn ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu hystyried gan Actiwari'r Cynllun, sy'n gwneud prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau o'r fath bob tair blynedd. Mae'r prisiad hwn yn ystyried sefyllfa ariannu'r Cynllun a lefel y cyfraniadau sy'n daladwy.

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad gweithredol, sef 1 Ebrill 2014, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fudd-daliadau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwyliedig yr aelod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r dystysgrif actiwaraidd ffurfiol wedi'i chynnwys ar dudalen **35**.

## Aelodaeth

Nodir isod yr aelodaeth o'r Cynllun ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn, a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn:

| Aelodau Gweithredol | |
|---|---|
| **Aelodau a oedd yn cyfrannu ar ddechrau'r flwyddyn 1 Ebrill 2015 (60 Aelod Cynulliad, a'r Cwnsler Cyffredinol. O'r 61 aelod mae 31 o swyddi Ddeiliaid Swyddi.)** | 61 |
| **Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn** | 2 |
| | 63 |
| **Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn** | (2) |
| **Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn** | (1) |
| **Marwolaeth mewn swydd** | - |
| **Aelodau a oedd yn cyfrannu ar 31 Mawrth 2016** | 60 |

| Pensiynwyr | |
|---|---|
| **Aelodau a oedd yn cael taliadau pensiwn ar 1 Ebrill 2015** | 34 |
| **Aelodau sy'n ymddeol yn ystod y flwyddyn** | 1 |
| **Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig** | 2 |
| **Aelodau sydd â dibynyddion newydd** | - |
| **Aelodau a fu farw yn ystod y flwyddyn** | - |
| **Pensiynwyr a oedd yn cael taliadau pensiwn ar 31 Mawrth 2016** | 37 |

| Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn | |
|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2015** | 21 |
| **Aelodau a adawodd gan gadw'u hawl i ohirio cymryd eu pensiwn** | 2 |
| **Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig** | (2) |
| **Aelodau a drosglwyddodd fudd-daliadau allan o'r Cynllun** | (1) |
| **Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 31 Mawrth 2016** | 20 |

## Cynnydd mewn pensiynau

Datgelir manylion y taliadau a wnaed o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 7 y cyfrifon. Adolygir y pensiynau sy'n cael eu talu bob blwyddyn yn unol â'r Gorchymyn Cynnydd Pensiynau (Adolygu) 2015 a osodwyd gerbron y Senedd ar 13 Mawrth 2015 ac a ddaeth i rym ddydd Llun 6 Ebrill 2015. Cafwyd cynnydd o 1.2 y cant yn y pensiynau a delir .

Ni fu unrhyw gynnydd mewn pensiynau gohiriedig ar wahân i rai statudol.

## Ceidwad

Nid oes gan y Cynllun geidwad gan ei fod yn buddsoddi mewn unedau mewn polisi bywyd nad oes angen ceidwad arno. Ceidwad Baillie Gifford Life Ltd yw Bank of New York, One Canada Square, Llundain, E14 5AL.

## Rheoli Buddsoddiadau

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Baillie Gifford Life Ltd yn Rheolwyr y Gronfa ar gyfer y Cynllun ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli'r buddsoddiadau iddynt hwy.

Gwneir buddsoddiadau drwy bolisi pensiwn Baillie Gifford Life Ltd. Prif nodwedd y polisi yw bod y budd-daliadau a geir yn hollol ddibynnol ar berfformiad buddsoddi asedau'r Gronfa.

Telir ffi rheoli i Baillie Gifford Life Ltd ar sail canran o gyfanswm gwerth y gronfa ar y farchnad bob blwyddyn: 0.45 y cant yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Reoledig a 0.25 y cant yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Fynegrifol, a 0.65 y cant yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a chaiff hyn ei ddidynnu o werth y cronfeydd bob mis.

Y gost o reoli'r gronfa yn 2015-16 oedd £147,879 (£138,644 yn 2014-15).

Mae'r holl asedau yn y cronfeydd mynegrifol sy'n cael eu gweithredu gan Baillie Giford Life Ltd yn eiddo i gwmni yswiriant Baillie Gifford Life, ac maent wedi'u cofrestru yn enw Baillie Gifford Life.

Mae Baillie Gifford yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau arbennig yn cyd-fynd â bod yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni ar ran cleientiaid. Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol, cymdeithasol a materion llywodraethiant, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Oherwydd hyn, mae Baillie Gifford yn ystyried materion o'r fath wrth ddadansoddi ac adolygu cwmni, ac mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol penodol hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â bod yn berchen ar gyfranddaliadau ar ran eu cleientiaid.

Mae eu hagwedd tuag at y materion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth cyfranddaliadau'n seiliedig ar ymgysylltu a thrafod yn hytrach nag allgáu. Drwy ddefnyddio ymchwil mewnol ac allanol, maent wedi nodi materion allweddol sy'n ymwneud â chyfranddaliadau eu cleientiaid ac wedi'u trafod â'r cwmnïau dan sylw. Yn y modd hwn, maent yn annog cwmnïau i fonitro'r risgiau a'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol sy'n wynebu eu busnesau ac yn ymdrin â hwy. Maent yn credu y gall y broses hon gyfrannu at werth buddsoddiadau eu cleientiaid yn yr hirdymor.

Fel cwmni sydd wedi nodi ei ymrwymiad i God Stiwardiaeth y DU ac Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig (UNPRI), mae Baillie Gifford yn hybu trafodaeth effeithiol rhwng buddsoddwyr a chwmnïau ynghylch materion llywodraethu a materion strategol a, drwy lynu wrthynt, maent yn helpu i gynnwys materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant mewn penderfyniadau'n ymwneud â buddsoddiadau prif ffrwd ac arferion perchenogaeth.

## Buddsoddiadau

Mae'r holl fuddsoddiadau mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau'r Cynllun ac na chânt eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Nid yw maint asedau'r Cynllun yn ddigon i ganiatáu portffolio llawn amrywiaeth o fuddsoddiadau pe bai'r asedau'n cael eu buddsoddi'n uniongyrchol mewn bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Felly, nes i'r asedau fod yn ddigon mawr, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi mewn cynhyrchion digon amrywiol ac am gost resymol yw defnyddio ymddiriedolaethau unedol neu gwmnïau buddsoddi penagored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i adenillion y buddsoddiadau fod yn ganolig neu'n well ar gyfer eu sector wrth eu mesur yn erbyn cronfeydd pensiynau cronedig tebyg. Disgwylir hefyd i adenillion y buddsoddiadau fod yn uwch na chwyddiant prisiau ac i'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn ddigon i sicrhau y darperir ar gyfer budd-daliadau'r Cynllun yn unol â chyfrifiadau actiwaraidd y Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, yn unol ag adran 35 o'r Ddeddf, sy'n nodi eu polisïau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun ar gais.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford Life Limited, sy'n gweithredu'n unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn y Cytundeb Polisi Bywyd a'r cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cronedig a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau'n hawdd eu gwerthu.

## Polisi Buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi Buddsoddi'r Cynllun a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r polisi sydd ar waith ar 31 Mawrth 2016 i'w weld yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr, a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i'w weld. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â'r cyflogwr.

Dyma'r amcanion perfformiad ar gyfer y cronfeydd buddsoddi:

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford – perfformio 1.0 – 1.5 y cant (gros) yn well bob blwyddyn na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS Gytbwys dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

Dros y tair blynedd diwethaf bu cynnydd o 6.5 y cant yng nghyfradd enillion blynyddol y Gronfa Bensiwn Reoledig o'i gymharu â meincnod o 5.4 y cant.

Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford – perfformio 1.5 y cant (gros) yn well bob blwyddyn na'r enillion ar Fynegai Gilt Fynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Darparodd Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford berfformiad absoliwt cadarnhaol dros y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2016, fodd bynnag, yr oedd islaw'r meincnod mewn termau cymharol. Perfformiodd bondiau mynegrifol y DU yn eithriadol o gryf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond arafodd y duedd hon rywfaint yn y cyfnod dan sylw. Roedd pryderon parhaus ynghylch twf Tsieina, prisiau isel nwyddau a'r modd roedd y banciau canolog yn gweithredu a chyfrannodd hyn oll at gychwyn cyfnewidiol i 2016, pan fu buddsoddwyr unwaith eto yn chwilio am fuddsoddiadau hafan-ddiogel, er mwyn cryfhau enillion tymor byr. Mae'r gronfa mewn sefyllfa i elwa ar dwf arafach mewn marchnadoedd dethol newydd. Ni fu'r cyfnod o gynnydd a welwyd yn ddiweddar yn y marchnadoedd newydd yn fawr o hwb i berfformiad cymharol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Gronfa Bensiwn Fynegrifol wedi perfformio islaw'r meincnod. Cyfradd yr enillion blynyddol oedd 4.75 y cant o'i gymharu â pherfformiad meincnod o 5.6 y cant.

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford – perfformio 3.5 y cant (gros) y flwyddyn yn well (heb gynnwys ffioedd) dros gyfnodau treigl o bum mlynedd, gyda chyfnewidioldeb blynyddol o lai na 10 y cant.

Dros y pum mlynedd diwethaf bu cynnydd o 4.3 y cant yng nghyfradd enillion blynyddol y Gronfa Bensiwn Reoledig o'i chymharu â pherfformiad meincnod o 4.0 y cant.

Mae adroddiad buddsoddi sy'n ymwneud â'r polisïau buddsoddi yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa, ynghyd â natur, trefniadau a diogelwch yr asedau i'w gael ar dudalennu 10 i 14. Gwerth y Gronfa Reoledig ar y farchnad fel ar 31 Mawrth 2016 oedd £12,526,052. Cafodd asedau gwerth £536,400 eu hildio i dalu budd-daliadau ymddeol; gwerth Mynegai'r Gronfa Bensiwn ar y farchnad fel ar 31 Mawrth 2016 oedd £2,890,438, a chafodd asedau gwerth £119,200 eu hildio i dalu budd-daliadau ymddeol. Gwerth y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ar y farchnad fel ar 31 Mawrth 2016 oedd £12,594,172, a chafodd asedau gwerth £536,400 eu hildio i dalu budd-daliadau ymddeol. Datgelir y gwerthoedd hyn yn Nodyn 14 o'r cyfrifon.

Llofnod
**Jill Youds**
Aelod Cynulliad
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod
**Gareth Jones**
Ymddiriedolwr

# Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisïau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael ar gais.

Mae'r cyfrifoldeb o reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford Life Limited, sy'n gweithredu'n unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn y cynllun Polisi Bywyd a'r Ddogfen Nodweddion Allweddol, ac yn ôl y cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cronedig a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau'n hawdd eu gwerthu.

## Prisiad y Portffolio

| | 31 Mawrth 2016 GBP | 31 Mawrth 2015 GBP |
|---|---|---|
| **Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford** | 12,526,052 | 12,832,902 |
| **Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford** | 12,594,172 | 12,804,432 |
| **Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford** | 2,890,438 | 2,942,770 |
| CYFANSWM | **28,010,662** | **28,580,104** |

## Dosraniad yr Asedau

Dosraniad yr asedau oedd:

| | 31 Mawrth 2016 % | 31 March 2015 % |
|---|---|---|
| **Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford** | 44.7 | 44.9 |
| **Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford** | 45.0 | 44.8 |
| **Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford** | 10.3 | 10.3 |
| CYFANSWM | **100.0** | **100.0** |

## Amcan Perfformiad

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi pennu amcan perfformiad ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil atebolrwydd y gronfa a'r lefel o risg sy'n briodol ym marn yr Ymddiriedolwyr.

## Perfformiad hyd at fis Mawrth 2016 (%)

| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | Cronfa (Net) | Meincnod |
|---|---|---|
| Perfformio 1.0-1.5 y cant y flwyddyn (gros) yn well na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS Gytbwys dros gyfnodau treigl o 3 blynedd. | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 7.7 | 5.9 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 6.5 | 5.4 |
| Un Flwyddyn | 2.0 | -1.9 |

| Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford | Cronfa (Net) | Meincnod |
|---|---|---|
| Perfformio 1.5 y cant y flwyddyn (gros) yn well na Mynegai Gilt Mynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Cyn 10 Rhagfyr 2010, y nod oedd perfformio 0.75 y cant y flwyddyn (gros) yn well na Mynegai Gilt Mynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 9.2 | 9.8 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 4.5 | 5.6 |
| Un Flwyddyn | 1.3 | 1.9 |

| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | Cronfa (Net) | Meincnod +3.5% |
|---|---|---|
| Perfformio 3.5 y cant y flwyddyn (llai ffioedd) yn well na chyfradd sylfaenol y DU dros gyfnodau treigl o bum mlynedd gyda chyfnewidioldeb blynyddol o lai na | | |
| Pum mlynedd (y flwyddyn) | 4.3 | 4.0 |
| Tair blynedd (y flwyddyn) | 2.4 | 4.0 |
| Un Flwyddyn | -1.5 | 4.0 |

**Ffynhonnell: Statpro**

## Crynodeb o Ystadegau Risg

| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | |
|---|---|
| Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd | 4.5 |

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrifo dros 5 mlynedd tan ddiwedd mis Mawrth 2016

**Ffynhonnell:** Baillie Gifford

# Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2016

## Twf Amrywiol

Ar ôl cychwyn cymharol dawel, daeth yr amgylchedd buddsoddi'n fwy heriol. I ddechrau, cafodd arwyddion o welliant cyffredinol yn y cefndir economaidd byd-eang, a pholisi ariannol mwy hyblyg mewn llawer o wledydd datblygedig effaith ffafriol ar y marchnadoedd. Fodd bynnag, wrth i'r cyfnod fynd rhagddo, roedd pryderon cynyddol ynghylch cynaliadwyedd y twf economaidd yn Tsieina, gostyngiad mewn prisiau nwyddau ac ansicrwydd o ran pa mor gyflym y byddai'r gyfradd llog yn codi yn yr Unol Daleithiau yn y dyfodol, ac arweiniodd hyn oll at sefyllfa lle'r oedd ecwiti, credyd a'r marchnadoedd nwyddau'n cilio. Roedd pethau i'w gweld yn gwella tuag at ddiwedd y cyfnod yn sgîl data economaidd mwy calonogol, ac wrth i'r banciau canolog ymdrechu i ysgogi'r farchnad o'r newydd. O ganlyniad, gwelwyd prisiau asedau'n codi. .

Dros y 12 mis diwethaf, y mae arian cyfred gweithredol, isadeiledd a gwarantau cysylltiedig ag yswiriant oll wedi cyfrannu'n gadarnhaol at berfformiad. Mae colledion ariannol cyffredinol y Gronfa i'w priodoli i berfformiad gwan dosbarthiadau o asedau economaidd-sensitif, gan gynnwys ecwitïau rhestredig, bondiau marchnadoedd newydd a chredyd sy'n cynhyrchu elw mawr.

Drwy gydol y cyfnod, arhosodd y Gronfa yn eithaf amrywiol. Yn y chwarter olaf, manteisiwyd ar wendid y farchnad i ychwanegu at ein buddsoddiad yni ecwiti, eiddo a seilwaith Japan. Hefyd, crëwyd sefyllfa a fydd yn caniatáu inni elwa o chwyddiant cynyddol yn yr Unol Daleithiau, ar y sail bod disgwyliadau'r farchnad ar gyfer chwyddiant yn yr Unol Daleithiau yn rhy isel. Cafwyd arian i brynu'r rhain drwy werthu rhywfaint o aur, a oedd wedi perfformio'n dda, ac uwch offerynnau cyllid strwythuredig.

Cadwodd y Gronfa ddyraniad sylweddol mewn credyd sy'n cynhyrchu elw mawr. Fodd bynnag, rydym wedi lleihau ein buddsoddiad sylfaenol ym mondiau llywodraeth yr Almaen, sydd yn ddrud, drwy werthu bondiau blaendrafodion y llywodraeth. Mewn mannau eraill yn y portffolio, mae'r offerynnau credyd eraill yn cynnwys, naill ai'n gredyd cyfnod byr, y mae cyfraddau llog isel yn llai tebygol o effeithio arnynt, neu'n gredyd sydd â chyfradd gyfnewidiol, lle bydd y taliadau cwpon yn codi yn ôl cyfraddau llog y farchnad.

Er gwaetha'r ansefydlogrwydd sylweddol a welwyd yn ystod y cyfnod, nid yw ein barn ganolog wedi newid. Mae'r gwendid diweddar yn y farchnad wedi creu cyfleoedd i ni ychwanegu at asedau risg ar sail prisiadau mwy atyniadol. Fodd bynnag, at ei gilydd, ymddengys bod prisiadau'r dosbarthiadau o asedau yn adlewyrchu ymyrraeth barhaus y banciau canolog ac, o ystyried y cynnydd sylweddol mewn prisiau yr ydym wedi'u gweld ar draws nifer o ddosbarthiadau o asedau dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r enillion posibl yn debygol o fod yn is yn y dyfodol nag y buont yn ddiweddar. Rydym yn parhau'n weddol optimistaidd o ran y rhagolygon ar gyfer twf byd-eang. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r risgiau i'r rhagolygon hynny, ac rydym yn cynnal portffolio amrywiol yn gyffredinol.

## Cytbwys

Yn gyffredinol, perfformiodd y prif farchnadoedd ecwiti'n gadarnhaol ar ddechrau'r cyfnod, gan eu bod yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan elw corfforaethol cadarn. Roedd yr arwyddion o welliant cyffredinol yn y cefndir economaidd byd-eang a'r ffaith bod cyfraddau llog yn parhau'n isel mewn llawer o wledydd datblygedig hefyd yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'r ofnau ynghylch y ffaith bod economi Tsieina yn tyfu'n arafach na'r disgwyl, yn ogystal â'r pryderon ynghylch amseriad y cynnydd mewn cyfraddau llog yn yr Unol Daleithiau, a'r gostyngiad mewn pris nwyddau, wedi cyfrannu at yr

ansefydlogrwydd dilynol. Roedd rhai mynegeion ecwiti wedi sicrhau rhywfaint o gynnydd yn ystod y 12 mis yn gyffredinol, ond roedd llawer wedi arwain ar golledion. At ei gilydd, mae marchnadoedd llog sefydlog wedi elwa o'r ansicrwydd, ac maent wedi perfformio'n dda yn ystod y cyfnod.

Yn yr Unol Daleithiau, mae'r sefyllfa economaidd yn gwella a hyn, ynghyd â ffactorau eraill, fel y symiau sylweddol a dalwyd yn ôl i gyfranddalwyr, sydd i'w briodoli am y ffaith bod prisiau'r farchnad stoc yn uwch nag erioed o'r blaen ym mis Mehefin, cyn iddi ildio rhywfaint o'r enillion. Beth bynnag, mae'r amgylchedd economaidd yn parhau i gryfhau, ac ym mis Rhagfyr cyhoeddodd y Gronfa Ffederal gynnydd o 0.25 y cant yn y cyfraddau llog, y cynnydd cyntaf ers 2006.

Yn y DU, cyrhaeddodd y farchnad stoc y lefelau uchaf erioed ym mis Ebrill 2015, cyn sefydlogi a cholli momentwm ar ôl hynny. Oherwydd pryderon ehangach am dwf economaidd byd-eang, roedd marchnadoedd y DU wedi gwanhau erbyn diwedd y cyfnod. Mae ffocws y farchnad yn awr, i raddau helaeth, ar y refferendwm sydd ar ddod ar aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd.

Roedd yr adferiad economaidd yn parhau'n dawel ar draws ardal yr Ewro yn ystod y cyfnod. Er gwaethaf y cyhoeddiad ar ddechrau 2016 y byddai Banc Canolog Ewrop yn gostwng cyfraddau llog ymhellach, ac ar yr un pryd yn cynyddu lleddfu meintiol i 80 biliwn ewro'r mis, roedd gwendid y farchnad yn parhau a nododd y marchnadoedd stoc Ewropeaidd ddirywiad cyffredinol.

Yn Japan, roedd canlyniadau cwmnïau yn ystod y cyfnod yn awgrymu bod proffidioldeb yn gwella, a chynyddodd taliadau i gyfranddalwyr. Fodd bynnag, roedd y twf yn economi Japan yn parhau'n araf. Mewn cam annisgwyl, cyflwynodd Banc Japan gyfraddau llog negyddol ar ddechrau 2016 mewn ymgais i ysgogi'r economi. Pan ddaeth y cyfnod i ben, marchnadoedd Japan oedd un o'r rhanbarthau a oedd yn perfformio waethaf o ran arian lleol.

Roedd y ffaith bod twf wedi arafu, prisiau nwyddau wedi gostwng ac arian cyfred yn cael ei werthu'n rhad, i gyd yn effeithio ar barodrwydd i fuddsoddi mewn Marchnadoedd Newydd. Roedd Tsieina, yn arbennig, o dan y chwyddwydr o gofio pryderon am y gostyngiad yn ei thwf economaidd a goblygiadau hynny ar gyfer y rhanbarth, a thu hwnt.

Gyda hyn o gefndir, mae'r farchnad ecwiti yn y DU wedi gostwng 3.9 y cant. Gorffennodd Gogledd America 0.4 y cant yn uwch mewn termau'r ddoler, sef cynnydd o 3.6 y cant ar ôl trosi i sterling, tra bod Ewrop wedi gostwng 11.5 y cant, sy'n ostyngiad o 4.2 y cant mewn termau sterling. Collodd marchnadoedd newydd 7.3 y cant o'u gwerth mewn arian lleol (colled o 8.9 y cant ar ôl trosi), a nododd Asia Ddatblygedig (gan gynnwys Japan) ostyngiad o 10.9 y cant, a oedd yn lleihad o 4.1 y cant i fuddsoddwyr yn y DU.

Roedd cyfraddau llog yn parhau'n isel drwy gydol y cyfnod, ac mewn rhai achosion, gostyngwyd y gyfradd islaw sero. Er gwaethaf cyfnodau o ansicrwydd, cynyddodd gwerth bondiau llywodraeth y DU 3.3 y cant dros y flwyddyn, tra bod bondiau llywodraethau tramor 9.8 y cant yn uwch yn nhermau arian lleol. Yn y cyfamser, llwyddodd bondiau corfforaethol y DU i sicrhau elw o 0.4 y cant yn ystod y cyfnod.

## Llog Sefydlog - Llywodraeth

Ar ôl cychwyn cymharol dawel, daeth yr amgylchedd buddsoddi'n fwy heriol. I ddechrau, cafodd arwyddion o welliant cyffredinol yn y cefndir economaidd byd-eang, a pholisi ariannol mwy hyblyg mewn llawer o wledydd datblygedig effaith ffafriol ar y marchnadoedd. Fodd bynnag, wrth i'r cyfnod fynd rhagddo, roedd pryderon cynyddol ynghylch cynaliadwyedd y twf economaidd yn Tsieina, gostyngiad mewn prisiau nwyddau ac ansicrwydd o ran pa mor gyflym y byddai'r gyfradd llog yn codi yn yr Unol Daleithiau yn y dyfodol ac arweiniodd hyn oll at sefyllfa lle'r oedd ecwiti, credyd a'r marchnadoedd nwyddau'n cilio. Ym mis Rhagfyr, fel y rhagwelwyd yn eang, cyhoeddodd y Gronfa Ffederal gynnydd yn y gyfradd llog am y tro cyntaf mewn deng mlynedd. Fel y banc canolog cyntaf i godi cyfraddau llog yn llwyddiannus o'r radd sero, ystyriwyd hwn yn gam cadarnhaol i'r economi fyd-eang. Ar y llaw arall, mae Banc Canolog Ewrop a Banc Japan wedi cynyddu'r ysgogiad ariannol, ac ni lwyddwyd i sicrhau twf na chwyddiant. Yn erbyn y cefndir hwn, cynhyrchodd giltiau enillion da. Er i'r elw leihau dros y flwyddyn, cafwyd enillion o oddeutu 3.3 y cant dros y flwyddyn. Yn y cyfamser, cynyddodd gwerth bondiau llywodraethau tramor 9.8 y cant mewn termau arian lleol.

## Y Daliadau mwyaf – Y Deg Uchaf

| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | % o'r portffolio |
|---|---|
| Baillie Gifford Emerging Mkts Gwth Fund C Accum | 4.0 |
| BG Worldwide Global Credit Fund C GBP Acc | 2.7 |
| BG Worldwide Active Cash Plus Fund C GBP Acc | 2.6 |
| Baillie Gifford Emerging Mkts Bond Fd C Gross Acc | 2.3 |
| Baillie Gifford Global Bond Gross C Acc | 2.2 |
| Amazon.com | 1.6 |
| Baillie Gifford Japanese Smaller Cos Fund C Accum | 1.5 |
| St. James's Place | 1.4 |
| Baillie Gifford British Smaller Cos Fund C Accum | 1.3 |
| Rightmove | 1.3 |

| Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford | % o'r portffolio |
|---|---|
| Trysorlys y DU 1.25% IL 2055 | 11.5 |
| Trysorlys y DU 0.375% IL 22/03/2062 | 10.2 |
| Trysorlys y DU 0.5% IL 22/03/2050 | 10.1 |
| Trysorlys y DU 1.25% IL 22/11/2032 | 9.2 |
| Trysorlys y DU 0.625% IL 22/11/2042 | 9.1 |
| Trysorlys y DU 0.75% IL 22/11/2047 | 8.7 |
| Trysorlys y DU 1.125% IL 22/11/2037 | 8.5 |
| Trysorlys y DU 2% IL 26/01/2035 | 7.9 |
| Trysorlys y DU 1.25% IL 22/11/2027 | 7.2 |
| Trysorlys y DU 4.125% IL 22/07/2030 | 7.1 |

| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | % o'r portffolio |
|---|---|
| Baillie Gifford Emerging Mkts Bond Fd C Gross Acc | 7.7 |
| Baillie Gifford High Yield Bond Fund C Gross Acc | 7.2 |
| BG Worldwide Global Credit C USD Acc | 6.7 |
| Baillie Gifford Global Alpha Growth Fund C Acc | 5.9 |
| Baillie Gifford Global Income Fund C Accum | 5.4 |
| Galene Fund | 3.9 |
| BG Worldwide Japanese Fund C GBP Acc | 3.2 |
| Allianz Merger Arbitrage Strategy | 3.0 |
| Cronfa LTGG Baillie Gifford C a gronnwyd | 2.1 |
| US T11 0.625 y cant 15/01/2026 | 1.9 |

# Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y Datganiadau Ariannol. Nid yw'n ofynnol trwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau cynlluniau pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fydd hynny'n bosibl oherwydd bod hyn yn arfer da. Yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob blwyddyn o'r Cynllun ar gael i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a rhai partïon eraill, a bod yn rhaid i'r datganiadau hyn:

- roi darlun cywir a theg o drafodiadau ariannol y cynllun yn ystod blwyddyn y cynllun ac o faint a sefyllfa'r asedau a'r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun;
- cynnwys y wybodaeth benodol a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir o ran 'Adroddiadau Ariannol ar Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisïau cyfrifyddu addas, sydd i'w gweithredu'n gyson, gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at reolau'r Cynllun ac argymhellion yr Actwari o ran y cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun, cyfraniadau gan, neu ar ran, y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun, a'r dyddiadau y mae'r cyfraniadau hyn i'w talu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari'r Cynllun.

Hefyd mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw a dros gymryd y camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

## Crynodeb o'r Cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

| | 2015-16<br>£ | 2014-15<br>£ |
|---|---|---|
| Cyfraniadau arferol y cyflogwr | 971,226 | 979,849 |
| Cyfraniadau arferol cyflogeion | 400,051 | 403,418 |
| Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol cyflogeion | 10,853 | 16,107 |
| Cyfanswm | **1,382,130** | **1,399,374** |

Cysoni'r cyfraniadau a dalwyd, a welir uchod, a'r cyfraniadau a nodwyd yn y Datganiadau Ariannol:

| | 2015-16<br>£ | 2014-15<br>£ |
|---|---|---|
| Cyfraniadau a dalwyd | 1,382,130 | 1,399,374 |
| Llai dyledwr agoriadol | (115,430) | (117,190) |
| Ynghyd â'r dyledwr cloi | 115,270 | 115,430 |
| Cyfanswm y cyfraniadau a nodwyd yn y Datganiadau Ariannol | **1,381,970** | **1,397,614** |

Llofnod

**Jill Youds**
Aelod Cynulliad
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (Ar ran yr Ymddiriedolwyr)
**Dyddiad**: 11 Gorffennaf 2016

Llofnod

**Gareth Jones**
Ymddiriedolwr

# Datganiad llywodraethu

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr am gynnal system gadarn o lywodraethu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu diffinio'n glir yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 16.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynllun statudol ac mae'n gynllun pensiwn cofrestredig o dan Ddeddf Cyllid 2004. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

Mae'r Tîm Pensiynau o fewn Gwasanaethau Ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Ymddiriedolwyr ac mae'r trefniant hwn yn dod o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) a'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol y Bwrdd, y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr o ran rheoli a gweinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Fframwaith Llywodraethu

Caiff yr Ymddiriedolwyr, ac eithrio'r Ymddiriedolwr Bensiynwr sy'n Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, eu penodi gan Benderfyniad y Cynulliad yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Atodlen 1, Darpariaethau Cyffredinol parthed Ymddiriedolwyr, o reolau'r Cynllun yn nodi y bydd y Cynulliad, drwy benderfyniad, yn penodi dim mwy na chwe aelod i fod yn Ymddiriedolwyr y Cynllun hwn, a bydd un ohonynt yn Ymddiriedolwr Bensiynwr. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr yw tri.

Cafodd yr Aelodau canlynol eu penodi'n Ymddiriedolwyr drwy benderfyniad gan y Cynulliad:

| Rôl | Enw | Dyddiad Penodi |
|---|---|---|
| Cadeirydd | William Graham AC | 03/06/2009 |
| Ymddiriedolwr | David Melding AC | 12/10/2011 |
| Ymddiriedolwr | Peter Black AC | 12/10/2011 |
| Ymddiriedolwr | Jocelyn Davies AC | 12/10/2011 |
| Ymddiriedolwr | Mike Hedges AC | 12/10/2011 |
| Ymddiriedolwr-Bensiynwr | Gareth Jones | 09/06/2010 |

Etholwyd Mr Graham yn Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr yn ystod cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ym mis Hydref 2009.

Rhoddodd Mr Jones y gorau i'w swydd fel Aelod Cynulliad ym mis Mawrth 2011, ond fe'i penodwyd yn Ymddiriedolwr Bensiynwr drwy bleidlais ymhlith aelodau sy'n bensiynwyr ym mis Hydref 2011. Ef yw'r unig Ymddiriedolwr sy'n gwasanaethu am gyfnod penodedig tan 4 Hydref 2016, sef am 5 mlynedd.

| Enw | Canran y cyfarfodydd y bu’r ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt |
|---|---|
| William Graham AC | 100 y cant |
| David Melding AC | 100 y cant |
| Peter Black AC | 33 y cant |
| Jocelyn Davies AC | 100 y cant |
| Mike Hedges AC | 100 y cant |
| Gareth Jones | 100 y cant |

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd tri chyfarfod yr Ymddiriedolwyr, ym mis Mehefin, mis Tachwedd a mis Chwefror. Mae’r tabl presenoldeb uchod yn dangos cyfran yr holl gyfarfodydd a fynychwyd gan bob Ymddiriedolwr.

Cyflwynodd Mr Black ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ym mis Tachwedd a mis Chwefror.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiadau manwl canlynol:

- Adroddiad yr Archwilydd ar y Datganiadau Ariannol
- Adolygiad o berfformiad buddsoddiadau’r Cynllun a’r rhagolygon ar eu cyfer
- Adolygiad o reolau Cynllun Pensiwn drafft y Pumed Cynulliad
- Adolygu a chymhwyso’r Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Chynllun Pensiwn newydd y Pumed Cynulliad
- Adroddiad Etifeddiaeth
- Gweithredu’r newidiadau i’r Cynllun yn 2016 a chyflwyno gwybodaeth amdanynt.

Paratowyd a chyflwynwyd yr adroddiadau gan gynghorwyr proffesiynol y Cynllun. Roedd y wybodaeth hon, ynghyd â phapurau briffio ychwanegol a baratowyd gan yr Ysgrifenyddiaeth yn darparu data o ansawdd da sy’n caniatáu i’r Ymddiriedolwyr arfer eu swyddogaethau’n effeithiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Mae’r system rheolaeth fewnol wedi’i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu.

Mae’r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i geisio nodi’r prif risgiau i nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a’u rheoli’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae’r system yn seiliedig ar fframwaith rheoli gwybodaeth yn rheolaidd, rheoli ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo a sicrhau atebolrwydd. Mae’r system reolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Nghynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad blynyddol a’r cyfrifon.

## Problemau sylweddol yn ymwneud â rheolaeth fewnol

Ni nodwyd unrhyw broblemau Rheolaeth Fewnol o bwys yn ystod y flwyddyn.

## Y gallu i ymdopi â risg

Caiff y cyfrifoldeb dros weinyddu a chyfrifyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd ei ysgwyddo ar ran yr Ymddiriedolwyr gan staff yr Ysgrifenyddiaeth o fewn Gwasanaethau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth.

## Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol na cholli data yn ystod y flwyddyn.

## Rheoli risg

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd y gofrestr risg ar gyfer y Cynllun, a chafodd ei diweddaru a'i chytuno gyda'r Ymddiriedolwyr fel rhan o'r cynllun busnes tymor canolig. Caiff pob risg ei nodi a'i asesu mewn tri chategori, sef uchel / canolig / isel, yn seiliedig ar ffactorau fel y tebygolrwydd y byddai'r risg yn digwydd, effaith y risg pe bai'n digwydd a'r rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd i reoli pob risg a nodir. Bydd yr ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risg bob blwyddyn o leiaf.

Defnyddiwyd y gofrestr a ddeilliodd o hyn i ganfod unrhyw fesurau ychwanegol a ystyrir yn angenrheidiol i reoli'r risgiau yn effeithiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r risgiau sydd wedi eu nodi a'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau eu heffaith:

- **Buddsoddiadau:** Risg na fydd buddsoddiadau yn cynhyrchu digon o enillion gan effeithio, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol y Cynllun. Caiff perfformiad buddsoddiadau ei adolygu gan yr Ymddiriedolwyr bob chwarter, a bydd ymgynghorydd buddsoddi'r Cynllun yn paratoi adroddiad blynyddol ar berfformiad buddsoddiadau;
- **Cofnodion y Cynllun Pensiwn:** Risg y gallai cofnodion anghyflawn neu anghywir arwain at daliadau anghywir / anawdurdodedig neu at wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth anghyflawn. Cadwyd cofnodion cywir o aelodau a chyn-aelodau, o drafodiadau i mewn ac allan o'r Cynllun ac o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
- **Gweinyddu'r Cynllun**: Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r camau a gymerir gan y staff gweinyddol i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb ym mhob un o'u cyfarfodydd;
- **Aelodau:** Mae gweithdrefn ar waith i ddatrys anghydfodau'n ymwneud â'r Cynllun gydag aelodau. Darperir gwybodaeth yn rheolaidd i aelodau'r Cynllun drwy gylchlythyron ac mewn cyfarfodydd grŵp;

## Adolygu effeithiolrwydd

Cawn gymorth i ddatblygu a chynnal y rheolaethau mewnol gan uwch reolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Bydd Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad yn adolygu'r fframwaith rheoli mewnol bob blwyddyn.

Caiff ein hadolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn ei lywio gan waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff y sylwadau a wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.

Rydym yn fodlon bod y rheolaethau mewnol sydd ar waith wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn.

Ar 6 Mai 2016, disodlwyd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer y Pumed Cynulliad, gan Fwrdd Pensiynau newydd sy'n cynnwys dau gynrychiolydd a enwebir gan Aelodau cyfredol a blaenorol y Cynulliad, dau gynrychiolydd a benodir gan Gomisiwn y Cynulliad ac Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol a fydd yn Gadeirydd y Bwrdd.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 11 Gorffennaf 2016 gan:

| | |
|---|---|
| Llofnod | Llofnod |
| Jill Youds<br>Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (ar ran yr Ymddiriedolwyr) | Gareth Jones<br>Ymddiriedolwr |

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf wedi archwilio Datganiadau Ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 sy'n cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad o asedau net a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

## Cyfrifoldebau arbennig yr ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 17, ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol fy mod yn cydymffurfio â'r Safonau Moesegol i Archwilwyr a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

## Cwmpas archwilio'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu digon o dystiolaeth am y symiau a'r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, p'un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol yr ymddiriedolwyr; a'r modd y cyflwynir y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Yn ogystal â hyn, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac unrhyw wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi unrhyw anghysonderau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy'n ymddangos yn anghywir, a hynny ar sail y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu oherwydd unrhyw anghysondeb o bwys a welaf rhwng y datganiadau a'r wybodaeth a gaf. Os byddaf yn gweld unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy adroddiad.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

– yn rhoi darlun cywir a theg o drafodiadau ariannol y cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, ac o swm a sefyllfa ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, heblaw am y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ddiwedd y flwyddyn;

– wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac

– yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn Rheoliad 3 o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996 a'r Atodlen iddi, a wneir o dan Ddeddf Pensiynau 1995.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 12 Gorffennaf 2016

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn yr Aelodau sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016

## Cyfrif y Gronfa

| Cyfraniadau a budd-daliadau | Nodyn | 2015-16 | Ailddatganwyd 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Cyfraniad y cyflogwr | 5 | 971,123 | 978,573 |
| Cyfraniad y cyflogai | 5 | 410,847 | 419,041 |
| Cyfanswm y cyfraniadau | | 1,381,970 | 1,397,614 |
| Trosglwyddiadau i mewn | 6 | 18,329 | 11,921 |
| Llog a dderbyniwyd | | 50 | 34 |
| Incwm arall | | 100 | 0 |
| | | 1,400,449 | 1,409,569 |
| Budd-daliadau a dalwyd neu sy'n daladwy | 7 | (463,373) | (380,461) |
| Ffioedd proffesiynol | 13 | (130,825) | (104,399) |
| Costau gweinyddu | 11 | (2,072) | (2,751) |
| Taliadau i, neu oherwydd aelodau sy'n ymadael | | (224,823 ) | 0 |
| | | (821,093) | (487,611) |
| **Ychwanegiadau net o drafodiadau ag Aelodau** | | 579,356 | 921,958 |
| **Incwm buddsoddi** | | | |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 14 | 208,556 | 2,756,488 |
| Llog arian cadw | 8 | 720 | 752 |
| Treuliau Rheolwyr Buddsoddi | 15 | (147,879) | (138,643) |
| **Enillion net ar fuddsoddiadau** | | 61,397 | 2,618,597 |
| | | | |
| **Swm net y cynnydd yn y gronfa** | | 640,753 | 3,540,555 |
| | | | |
| **Asedau net agoriadol y Cynllun** | | 29,028,245 | 25,487,690 |
| | | | |
| **Asedau net y Cynllun ar ddiwedd y cyfnod** | | **29,668,998** | **29,028,245** |

| Datganiad o Asedau Net | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2016 | Ar 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Asedau buddsoddi** | | | |
| Buddsoddiad cronedig | 14 | 28,010,662 | 28,580,104 |
| Cyfrif Cadw'r Trysorlys | 8 | 323,276 | 352,572 |
| | | | |
| Cyfanswm buddsoddiadau: | | 28,333,938 | 28,932,676 |
| | | | |
| **Asedau Cyfredol** | 9 | 1,364,607 | 139,943 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau Presennol** | 10 | (29,547) | (44,374) |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau net y Cynllun** | | **29,668,998** | **29,028,245** |

Crynhoi trafodiadau ac asedau net y Cynllun yn unig y mae'r Datganiadau Ariannol, ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau sy'n ddyledus ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun. Ymdrinnir â safbwynt yr Actiwari, sy'n ystyried rhwymedigaethau o'r fath, yn Natganiad yr Actiwari ar dudalen 35 a dylid darllen y Datganiadau Ariannol hyn ar y cyd â'r Adroddiad hwnnw.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 11 Gorffennaf 2016:

Llofnod

**Jill Youds**
Aelod Cynulliad
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod

**Gareth Jones**
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 24 i 33 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon

## 01. Sail y gwaith paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ac â'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun pensiwn, a adolygwyd ym mis Tachwedd 2015. Dyma'r flwyddyn gyntaf i FRS 102 a'r SORP diwygiedig fod yn gymwys i ddatganiadau ariannol y Cynllun.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodiadau ac asedau net y Cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill sy'n ddyledus ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld Datganiad yr Actiwari ar dudalennau 33 - 35).

## 02. Trosglwyddo i Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Asedau net y Cynllun fel y nodwyd yn flaenorol | 25,487,690 | 29,028,245 |
| Effaith trosglwyddo- prisio asedau | dim | dim |
| Asedau net y Cynllun fel yr ail-ddatganwyd | 25,487,690 | 29,028,245 |

Yn flaenorol, roedd balansau Cyfrif Cadw'r Trysorlys yn cael eu cynnwys o fewn yr asedau cyfredol yn y Datganiad o Asedau Net. Yn flaenorol, roedd costau'r rheolwyr buddsoddi yn cael eu cynnwys o fewn y Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad. O dan y safon FRS adroddir yn eu cylch ar wahân. Yr effaith gyffredinol sydd wedi deillio o drosglwyddo i safon FRS 102 yw ailddosbarthu balansau Cyfrif Cadw'r Trysorlys nad yw eu gwerth wedi newid.

## 03. Polisïau cyfrifyddu

Dyma brif bolisïau cyfrifyddu'r Cynllun:

### Incwm o fuddsoddiadau

– Caiff incwm o adneuon arian parod ac adneuon tymor byr eu cyfrif ar sail croniadau.

– Caiff incwm o fuddsoddiadau sy'n deillio o fuddsoddiadau sylfaenol y cyfryngau buddsoddi cronedig eu cyflwyno yn y gronfa fuddsoddi, a'u hadlewyrchu yng ngwerth yr unedau, ac ni adroddir arno ar wahân yn natganiadau ariannol y Cynllun

– Mae llog adneuon arian parod yn cronni'n ddyddiol.

### Cyfraniadau

– rhoddir cyfrif am gyfraniadau gweithwyr, gan gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) pan fyddant yn cael eu didynnu o gyflog aelodau.

– caiff AVCs eu buddsoddi gyda chyfraniadau arferol yng nghronfeydd y Cynllun yn unol â'r cytundeb ar gyfer eu talu.

– rhoddir cyfrif am gyfraniadau arferol y Cyflogwr ar yr un sail â chyfraniadau cyflogeion.

### Trosglwyddiadau

– Cafodd gwerth yr holl symiau a drosglwyddwyd i gynlluniau pensiwn arall fel arian parod eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â'r Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. Yn 2008 gwaredwyd y gofynion rheoleiddio ar gyfer trosglwyddo symiau i mewn felly caiff credydau gwasanaeth wrth drosglwyddo i mewn eu cyfrifo yn unol â rheolau'r Cynllun a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

### Taliadau i aelodau

– Cyfrifir budd-daliadau ar y diwrnod y maent yn ddyledus a chyfrifir cyfraniadau a gaiff eu had-dalu pan fyddant yn cael eu gwneud.

– Mae'r aelodau yn cael dewis rhwng y math o bensiwn a delir; p'un ai 1/50fed neu 1/40fed am y 3 mis cyntaf. Os nad oes dewis wedi'i nodi yn ystod y cyfnod hwn, bydd y pensiwn yn symud yn ôl yn awtomatig i 1/40fed .

– Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau unigol i mewn i'r Cynllun neu allan ohono pan delir neu pan dderbynnir y swm dan sylw, sy'n digwydd fel arfer pan fydd yr aelod yn derbyn atebolrwydd neu'n cael ei rhyddhau ohono.

### Treuliau

– Cyfrifir pob gwariant arall yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.

### Treth

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004 ac yn 'gynllun cymeradwy' at ddibenion derbyn gwerthoedd trosglwyddo. Mae'r cynllun felly wedi'i eithrio rhag treth. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

### Prisio buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau eu prisio ar eu gwerth teg ar ddyddiad y Datganiad o'r Asedau Net yn unol â'r hierarchaeth gwerth teg a ganlyn:

Categori (a) Y pris a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol am ased o'r un math.

Categori (b) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael, pris trafodiad diweddar ar gyfer ased o'r un math, wedi'i haddasu os oes angen.

Categori (c) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael ac os nad yw trafodiad diweddar o ased o'r un math, ar ei ben ei hun, yn amcangyfrif da o werth teg, caiff y gwerth teg ei bennu gan ddefnyddio techneg prisio sy'n defnyddio:

c (i) data gweladwy'r frchnad; neu

c (ii) data nad yw'n weladwy.

Gwerth buddsoddiadau cronedig ar y gwerth teg a nodir ar adeg y pris terfynol sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwariannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

## 04. Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad o dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr. Amcangyfrifir mai £103,793 (£87,200 yn 2014-15) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

## 05. Cyfraniadau i'w derbyn

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Cyfraniad y cyflogwr | £ | £ |
| Normal | 971,123 | 978,573 |
| Cyfraniad cyflogeion | | |
| Normal | 399,985 | 402,934 |
| Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol | 10,862 | 16,107 |
| Cyfanswm | **1,381,970** | **1,397,614** |

Cyfrannodd aelodau 10 y cant i gronni budd-daliadau ar sail deugeinfed a 6 y cant i gronni budd-daliadau ar sail hanner canfed a chyfrannodd Comisiwn y Cynulliad 23.8 y cant o gyflogau pensiynadwy i'r Cynllun.

Parhaodd dau gontract blynyddoedd ychwanegol dros gyfnod o bedair blynedd yn ystod y flwyddyn ariannol a phrynwyd un flwyddyn ychwanegol drwy ddefnyddio cyfandaliad.

## 06. Trosglwyddiadau i mewn

Mae trosglwyddiad unigol o £18,329 (£11,921 yn 2014-15) i mewn yn cynrychioli'r asedau a drosglwyddwyd i'r Cynllun mewn perthynas ag aelod a drosglwyddodd i mewn ar 18 Rhagfyr 2015.

## 07. Budd-daliadau sy'n daladwy

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Mae cyfraniadau'n cynnwys: | £ | £ |
| Pensiynau | 389,191 | 380,461 |
| Budd-daliadau Ymddeol - Cyfandaliadau | 74,182 | - |
| Cyfandaliad Budd-daliadau Marwolaeth | - | - |
| | **463,373** | **380,461** |

## 08. Cyfrif Cadw'r Trysorlys

| | 31 Mawrth 2016<br>£ | 31 Mawrth 2015<br>£ |
|---|---|---|
| Cyfrif cadw'r Trysorlys ar 1 Ebrill 2015 | 352,573 | 350,509 |
| Ychwanegu'r llog ar gyfer y flwyddyn | 720 | 752 |
| | 353,293 | 351,261 |
| (Alldyniadau)/adneuon | (29,994) | 1,302 |
| Symudiadau o ran llog cronedig | (23) | 9 |
| Cyfanswm Cyfrif Cadw'r Trysorlys | 323,276 | 352,572 |

## 09. Asedau Cyfredol

| | 31 Mawrth 2016<br>£ | 31 Mawrth 2015<br>£ |
|---|---|---|
| Arian parod yn y banc | 1,249,055 | 24,124 |
| Cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr a chyflogeion | 115,270 | 115,430 |
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 282 | 389 |
| Cyfanswm | **1,364,607** | **139,943** |

Mae cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr a chyflogeion yn cyfeirio at fis Mawrth 2016 ac fe'u talwyd yn llawn i'r Cynllun cyn y terfyn amser statudol, sef 19 Ebrill 2016.

## 10. Rhwymedigaethau Presennol

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|---|
| Credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen Blwyddyn | (29,547) | (44,374) |
| Cyfanswm | **(29,547)** | **(44,374)** |

Mae 'credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn' yn cynrychioli dyledion am waith a wnaed lle na dderbyniwyd yr anfonebau erbyn diwedd y flwyddyn, a rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu.

## 11. Costau gweinyddu

| | 2015 - 2016 | 2014 - 2015 |
|---|---:|---:|
| Hyfforddiant | - | - |
| Costau gweinyddu eraill | 2,072 | 2,751 |
| Cyfanswm | **2,072** | **2,751** |

## 12. Cyfryngau Buddsoddi Cronedig

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2015 |
|---|---:|---:|
| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | 12,526,052 | 12,832,902 |
| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | 12,594,172 | 12,804,432 |
| Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford | 2,890,438 | 2,942,770 |
| Cyfanswm | **28,010,662** | **28,580,104** |

## 13. Ffioedd proffesiynol

| | 2015-16<br>£ | 2014-15<br>£ |
|---|---:|---:|
| Ffioedd Actiwaraidd | 60,824 | 44,768 |
| Ymgynghoriaeth Fuddsoddi | 14,429 | 16,348 |
| Ffioedd archwilio | 13,079 | 13,079 |
| Ffioedd Cyfreithiol | 42,493 | 30,204 |
| Cyfanswm | **130,825** | **104,399** |

Cynyddodd ffioedd yr actwari, ffioedd cyfreithiol a ffioedd yr ymgynghorwyr buddsoddi yn ystod y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r gwaith o baratoi'r prisiad actiwaraidd 2014, cynnal adolygiad llawn o'r rheolau drafft ac effaith y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gynllun pensiwn y Pumed Cynulliad. Darparwyd gwaith a wnaed gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) gan Actiwari'r Cynllun a chan y Tîm Buddsoddi a Risg.

## 14. Cysoni buddsoddiadau

| | Cronfa Bensiwn Reoledig £ | Cronfa Bensiwn Fynegrifol £ | Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol £ | Asedau buddsoddi net |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar 1 Ebrill 2015 | 12,832,902 | 2,942,770 | 12,804,432 | 28,580,104 |
| Prisiau prynu | - | 29,806 | 532,075 | |
| Gwaredu a Gwerthiant | (536,400) | (119,200) | (536,400) | |
| Newid yn y gwerth ar y farchnad | 286,127 | 44,389 | (121,960) | 208,556 |
| Treuliau Rheolwyr Buddsoddi | (56,577) | (7,327) | (83,975) | |
| Newid net yn y gwerth ar y farchnad | 229,550 | 37,062 | (205,935) | |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2016 | 12,526,052 | 2,890,438 | 12,594,172 | 28,010,662 |
| Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2016 | 4,603,297 | 1,776,417 | 10,066,872 | |

| | Cronfa Bensiwn Reoledig £ | Cronfa Bensiwn Fynegrifol £ | Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol £ | Asedau buddsoddi net |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar 1 Ebrill 2014 | 11,603,052 | 2,328,226 | 11,099,331 | 25,030,609 |
| Prisiau prynu | - | 139,748 | 791,903 | |
| Gwaredu a Gwerthiant | - | - | - | |
| Newid yn y gwerth ar y farchnad | 1,283,692 | 481,406 | 991,390 | 2,756,488 |
| Treuliau Rheolwyr Buddsoddi | (53,842) | (6,610) | (78,192) | |
| Newid net yn y gwerth ar y farchnad | 1,229,850 | 474,796 | 913,198 | |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2015 | 12,832,902 | 2,942,770 | 12,804,432 | 28,580,104 |
| Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2015 | 4,808,154 | 1,820,344 | 9,970,314 | |

Dangosir dyraniad yr asedau yn Adroddiad Buddsoddi Rheolwyr y Gronfa ar dudalen 10. Ni ellir pennu'r incwm buddsoddi ar gyfer cronfeydd sylfaenol y mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad

Cenedlaethol Cymru yn buddsoddi ynddynt gan nad oes dosbarthu o'r gronfa, ond caiff yr holl incwm ac unrhyw adenillion treth eu cyfuno a thrwy hynny cynyddir gwerth yr unedau.

## 15. Treuliau Rheolwyr Buddsoddi

| Cynllun | Treuliau Rheolwyr Buddsoddi | |
|---|---|---|
| | 2015-16 | 2014-15 |
| Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford | (56,577) | (53,842) |
| Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford | (7,327) | (6,610) |
| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford | (83,975) | (78,191) |
| Cyfanswm | **(147,879)** | **(138,643)** |

Y ffioedd rheoli yw 0.45 y cant y flwyddyn ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.65 y cant ar gyfer y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a 0.25 y cant ar gyfer y Gronfa Bensiwn Fynegrifol. Cyfanswm y treuliau, gan gynnwys costau masnachu uniongyrchol yw 0.49 y cant yn achos y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.91 y cant yn achos y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ac 0.27 y cant yn achos y Gronfa Bensiwn Fynegrifol a chânt eu tynnu o werth y cronfeydd a'u hadlewyrchu ym mhris uned y cronfeydd.

## 16. Hierarchaeth Gwerth Teg Buddsoddi

Defnyddiwyd yr hierarchaeth gwerth teg a ganlyn i bennu gwerth teg offerynnau ariannol:

- Categori (a) Y pris a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol am ased o'r un math.
- Categori (b) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael, pris trafodiad diweddar ar gyfer ased o'r un math, wedi'i haddasu os oes angen.
- Categori (c) Os nad yw pris a ddyfynnwyd ar gael ac os nad yw trafodiad diweddar o ased o'r un math, ar ei ben ei hun, yn amcangyfrif da o werth teg, caiff y gwerth teg ei bennu gan ddefnyddio techneg prisio sy'n defnyddio:
    - c (i) data gweladwy'r farchnad; neu
    - c (ii) data nad yw'n weladwy.

At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae cronfeydd a gaiff eu prisio'n ddyddiol wedi'u cynnwys yn (a)

Mae asedau buddsoddi'r Cynllun wedi cael eu prisio'n deg gan ddefnyddio'r categorïau hierarchaeth uchod fel a ganlyn:

| | Categori (a) £ | Categori (b) £ | Categori c (i) £ | Categori c (ii) £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 31 Mawrth 2016 | | | | | |
| Cyfryngau buddsoddi cronedig | 28,010,662 | - | - | - | 28,010,662 |
| Arian Cadw | 323,276 | - | - | - | 323,276 |
| Cyfanswm | **28,333,938** | - | - | - | **28,333,938** |

| | Categori (a) | Categori (b) | Categori c (i) | Categori c (ii) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Ar 31 Mawrth 2015 | | | | | |
| Cyfryngau buddsoddi cronedig | 28,580,104 | - | - | - | 28,580,104 |
| Arian Cadw | 352,572 | - | - | - | 352.572 |
| Cyfanswm | **28,932,676** | - | - | - | **28,932,676** |

## 17. Risgiau buddsoddi

Mae amrywiaeth o risgiau'n gysylltiedig â buddsoddiadau mewn cynllun pensiwn. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried y prif risgiau canlynol yn barhaus:

– Risg llif arian - sef risg o ddiffyg o ran asedau hylifol o'i gymharu â rhwymedigaethau uniongyrchol. Yn y tymor byr, cymharol ychydig o all-lifau arian parod sydd, ac mae'r Cynllun yn gadarnhaol o ran llif arian. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r risg hwn dros gyfnod ac yn addasu'r strategaeth fuddsoddi yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod digon o hylifedd.

– Risg o gamgymharu - sef risg y bydd gwerthoedd asedau ac atebolrwydd yn newid mewn ffyrdd sy'n wahanol iawn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod buddsoddi'n sylweddol mewn asedau twf yn creu risg o gamgymharu, ond byddant am arallgyfeirio'r asedau twf i leihau risg yr anfantais. Asesir y risg hwn yn ystod pob prisiad actiwaraidd, ac fel y bydd y Cynllun yn aeddfedu bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried sut i leihau camgymharu.

– Risg Rheolwr - sef risg na fydd y rheolwyr buddsoddi yn sicrhau'r adenillion a ddisgwylir gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd y risg yn cael ei fonitro gan yr Ymddiriedolwyr, a fydd yn adolygu perfformiad

y rheolwr yn erbyn ei feincnod a'i gymheiriaid yn rheolaidd. Bydd tanberfformio am gyfnod estynedig fel arfer yn arwain at ail-dendro'r mandad buddsoddi.

– Risg crynhoi - sef risg bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn un dosbarth o asedau neu fuddsoddiad. Mae'r Cynllun mewn perygl os yw'r dosbarth neu'r buddsoddiad hwnnw'n tanberfformio neu'n methu. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r perygl hwn drwy fabwysiadu strategaeth sy'n golygu buddsoddi mewn ystod o wahanol ddosbarthiadau o asedau.

– Risg o ran credyd - sef risg y bydd parti i gontract yn methu â thalu neu'n methu â chyflawni'i ymrwymiadau i'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n diogelu asedau buddsoddwyr, a thrwy gadw adneuon arian parod gyda banciau cydnabyddedig yn unig, a banciau a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

Caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu rheoli i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu cadw ar lefel sy'n dderbyniol i'r Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg yn gyfan gwbl yn debygol o gynhyrchu llai o elw dros y tymor hwy na buddsoddiadau gydag elfen o ansicrwydd ynghylch yr elw. Mae'r Cynllun yn cael ei ariannu gan arian cyhoeddus, ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i ddarparu budd-daliadau heb i'r pris fod yn afresymol.

Wrth ystyried risg, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried cyngor eu hymgynghorwyr proffesiynol a'r consensws cyffredinol o ran arfer dderbyniol wrth ymdrin â chynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd hyn yn atal yr Ymddiriedolwyr rhag derbyn risg yn eu strategaeth fuddsoddi pan fyddant o'r farn y bydd yn cynhyrchu elw da i'r Cynllun.

## 17.1 Polisi Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr yn paratoi polisi buddsoddi ar ôl gofyn am gyngor gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ynghylch pa mor addas yw dosbarthiadau penodol o asedau, gan ystyried natur, amseriad a chyfoesedd rhwymedigaethau'r Cynllun, yn ogystal â'r lefel gyllido a pharodrwydd yr Ymddiriedolwyr a'r Cynulliad Cenedlaethol i fentro. O bryd i'w gilydd gall yr Ymddiriedolwyr hefyd ofyn am gyngor gan arbenigwyr eraill sydd â chymwysterau priodol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynllun ddigon o asedau i'w buddsoddi'n uniongyrchol i greu portffolio o fuddsoddiadau sydd ag amrywiaeth eang. Felly, nes bydd yr asedau wedi cynyddu'n ddigonol, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi mewn cynhyrchion digon amrywiol yw drwy ddefnyddio cynhyrchion buddsoddi cronedig.

Mae'r meini prawf buddsoddi o ran cynhyrchion buddsoddi cronedig wedi'u nodi yn nogfennau llywodraethu'r cynhyrchion hynny. Ni all Ymddiriedolwyr cynllun pensiwn unigol sy'n buddsoddi mewn cynnyrch cronedig o'r fath benderfynu ar y meini prawf hyn na'u diwygio. Fodd bynnag, gall Ymddiriedolwyr y Cynllun roi ystyriaeth lawn i'r amcanion buddsoddi a nodwyd a'r amrywiaeth o fuddsoddiadau a ganiateir wrth benderfynu sut i fuddsoddi asedau'r Cynllun.

Er mwyn cyflawni'r amcan o amrywio asedau'r Cynllun a chaniatáu'r defnydd o ddosbarthiadau asedau twf i sicrhau'r adenillion disgwyliedig uwch, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn amrywiaeth o ddosbarthiadau o asedau sy'n ceisio sicrhau enillion tebyg i ecwiti yn bennaf. Bydd hyn, fel arfer, yn golygu defnyddio 'cronfeydd rheoledig', 'cronfeydd rheoledig cymysg' neu gronfeydd 'amrywiol" ar gyfer cynlluniau pensiwn. Caiff y gymysgedd o asedau yn y cronfeydd hyn ei addasu fel arfer yn ôl anghenion cynllun pensiwn nodweddiadol ac mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod y Cynllun o fath tebyg.

Gall yr Ymddiriedolwyr neu'u rheolwyr buddsoddi adneuo arian parod os ydynt yn aros i'w fuddsoddi, ei ail-fuddsoddi neu ei dalu i aelodau, neu fel rhan o'r strategaeth fuddsoddi o bryd i'w gilydd. Rhaid i adneuo arian parod mewn banc neu fanciau cydnabyddedig a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn cofrestredig o dan Bennod 2 o Ran 4 o Ddeddf Cyllid 2004. Er mwyn manteisio ar y gostyngiadau treth a roddwyd i gynlluniau pensiwn cofrestredig, bydd yr Ymddiriedolwyr yn buddsoddi dim ond mewn cynhyrchion buddsoddi cronedig a all hawlio manteision treth tebyg drwy ganiatáu dim ond cynlluniau pensiwn eraill a gymeradwywyd at ddibenion treth neu elusennau cofrestredig i fuddsoddi ynddynt..

Yn unol â'r polisi hwn, ac er mwyn sicrhau amrywiaeth ddigonol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi buddsoddi mewn tair cronfa gronedig: Cronfa Bensiwn Reoledig, Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol a Chronfa Bensiwn Fynegrifol.

## 18. Trafodiadau â phartïon cysylltiedig

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, mae'r Cynllun wedi cael trafodiadau o bwys â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig.

Datgelir y trafodiadau hyn yn Nodyn 4 i'r cyfrifon hyn.

Nid oes yr un o'r Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau perthnasol â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

# Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol am Gyfraniadau, o dan Reoliad 4 y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, a nodir ar dudalen 16.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel y disgrifir ar dudalen 15, Ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhestr o gyfraniadau'n cael ei pharatoi, ei chynnal a'i hadolygu o bryd i'w gilydd. Rhaid i'r rhestr hon nodi'r cyfraddau a'r dyddiadau y mae angen talu cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun gan neu ar ran y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r Cynllun ac am fonitro a yw'r Cyflogwr yn cyfrannu i'r Cynllun yn unol â'r rhestr o gyfraniadau.

Fy nghyfrifoldeb i yw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd o dan y rhestr o gyfraniadau a rhoi fy marn i chi.

## Cwmpas y gwaith ar y datganiad am gyfraniadau

Mae fy archwiliad yn ymwneud â chael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y cyfraniadau a nodir yn y crynodeb o gyfraniadau ar dudalen 16, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r rhestr o gyfraniadau o leiaf. Mae hyn yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau.

## Datganiad am gyfraniadau a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, fel y nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, ac a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â Datganiad yr Actwari a ardystiwyd gan Actwari'r Cynllun ar 24 Mai 2016.

Huw Vaughan Thomas,
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

**Dyddiad**: 12 Gorffennaf 2016

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn yr Aelodau sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Datganiad yr Actiwari – yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2016

Caiff Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig o fewn saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifo. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

## Asesiad Actiwaraidd

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2014, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fudd-daliadau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol yr Aelod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Dull

Wrth baratoi prisiad actiwaraidd 2014, defnyddiwyd y Dull Rhagamcanu Unedau i brisio'r rhwymedigaethau y disgwyliwyd iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio. Mynegir Cyfradd Cyfraniadau Safonol y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y budd-daliadau a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prisio hwn ddarparu cyfradd cyfraniad safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraidd olynol cyhyd ag y bo dosbarthiad aelodau'r Cynllun o ran oedran/rhyw/cyflog yn aros yn lled gyson.

Cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Gellid fod wedi adlewyrchu'r gwarged o £3.58 miliwn fel addasiad i'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â'r Ymddiriedolwyr, mae'r gyfradd a argymhellir ar gyfer cyfraniad y cyflogwyr yr un fath â'r gyfradd daladwy yn dilyn prisiad 2011. Roedd hwn yn is na'r Gyfradd Cyfraniad Safonol llawn llai cyfraniadau'r aelodau, ond yn uwch nag y byddai wedi bod pe bai'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol wedi'i haddasu i gael gwared ar y gwarged yn y cynllun dros 15 mlynedd.

## Tybiaethau

Er mwyn cyfrifo cost budd-daliadau'r Cynllun, mae'n rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraidd o ran incwm disgwyliedig y Cynllun yn y dyfodol a'r budd-daliadau a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Mae'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad actiwaraidd 2014 ar gyfer cyfrifo cost budd-daliadau'r cynllun yn cael eu dangos yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Adenillion o'r buddsoddiadau, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog | 1½ y cant y flwyddyn |
| Adenillion o'r buddsoddiadau, net o dreuliau, yn fwy na phris chwyddiant (yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr) | 3½ y cant y flwyddyn |
| Hirhoedledd pensiynwyr – yn seiliedig ar dablau safonol a gyhoeddir gan yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau (tablau SAPS) gyda'r addasiadau a fabwysiadwyd ym mhrisiad Cynllun Pensiwn GIG Cymru a Lloegr fel ar 31 Mawrth 2012, a gwelliannau yn y dyfodol yn unol â'r prif amcanestyniadau poblogaeth, a seiliwyd ar ffigurau 2012, ac a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. | |

Mae rhagor o fanylion am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar yr asesiad actiwaraidd fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2014, dyddiedig 26 Mawrth 2015.

## Cyfradd Cyfraniadau

Hyd at 5 Mai 2016 roedd Aelodau'n talu cyfraniadau i'r Cynllun a oedd yn gyfwerth â 10 y cant o'u cyflog pensiynadwy os oeddent yn cronni deugeinfed o'u tâl pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6 y cant o'u tâl pensiynadwy os oeddent yn cronni hanner canfed ohono. Gan ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau uchod, yr asesiad ar gyfer cyfraniad y cyflogwr oedd 23.8 y cant o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2015 ymlaen, sef yr un gyfradd ag a dalwyd rhwng 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2015. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn o ran budd-dal marwolaeth, gan gynnwys cynnydd yn y budd-daliadau hyn ers i'r cynllun ddechrau, a hefyd lwfans ar gyfer costau gweinyddu.

Cyflwynodd Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru strwythur budd-dal newydd a ddaeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu ac yn parhau i gronni budd-daliadau yn seiliedig ar y strwythur budd-daliadau blaenorol tan 6 Mai 2021 ac yn talu cyfraniadau o 10 y cant neu 6 y cant o dâl pensiynadwy. Mae Aelodau ar y strwythur budd-dal newydd yn talu cyfraniadau i'r Cynllun ar gyfradd o 10.5 y cant o gyflog pensiynadwy.

Ar ôl cyflwyno'r strwythur budd-dal newydd, ailaseswyd cyfradd cyfraniad y cyflogwr a argymhellir i fod yn 15.6 y cant o dâl pensiynadwy, o 6 Mai 2016 ymlaen. Mae hyn yn y gyfradd gyfrannu safonol lawn llai cyfraniadau'r aelodau, heb unrhyw addasiad i gael gwared ar y gwarged yn y cynllun.

## Diogelwch yr Hawliau Arfaethedig

Yn fy marn i, mae adnoddau'r Cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y cynllun fel y mae. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r aelodau'n cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff "Cyfradd Cyfraniadau;" yn amodol ar adolygiad yn ystod asesiadau actiwaraidd.

## Yr asesiad actiwaraidd nesaf

Mae prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf y Cynllun ar y gweill a'r dyddiad y caiff ei weithredu yw 1 Ebrill 2017. Prif ddiben y prisiad hwnnw fydd asesu a yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

Daniel Selby
Cymrawd Athrofa a Chyfadran yr Actiwariaid
24 Mai 2016

Adran Actiwari'r Llywodraeth
Finlaison House, 15-17 Furnival Street
Llundain EC4A 1AB